CYNLLUN CYDRADDOLDEB HILIOL S4C

Pwrpas

Mae'r ddogfen hon yn nodi argymhellion S4C ar gyfer bodloni gofynion Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad) 2000. Yn ôl anghenion y Ddeddf, wrth weithredu ei gofynion, mae angen i S4C gymryd sylw o'r canlynol:

(a) yr angen i ddileu pob gwahaniaethu anghyfreithiol ar sail hil; a'r
(b) angen i hybu cyfleoedd cyfartal a chysylltiadau da rhwng pobl o wahanol grwpiau hiliol.

Wrth i S4C gyhoeddi'r ddogfen hon adlewyrchir un o ofynion eraill y Ddeddf hefyd, sef yr angen inni osod ein polisïau yn agored mewn cynllun cydraddoldeb hiliol.

Cyflwyniad

Dros y cyfnod ers ein dechreuad, mae S4C wedi darlledu nifer helaeth o raglenni teledu sydd wedi adlewyrchu amrywiaeth y gymuned yr ydym yn ei gwasanaethu. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglenni yn Saesneg yn ogystal â Chymraeg, sydd wedi adlewyrchu agweddau gwahanol ar fywydau cymunedau ethnig lleiafrifol yng Nghymru, yng ngweddill y Deyrnas Unedig a thu hwnt. Mae S4C hefyd yn gyflogwr cyfle cyfartal. Yn unol â'r gofynion statudol newydd, mae'r cynllun hwn yn tynnu ynghyd yr agweddau ar ein gweithgaredd parthed cyfleoedd cyfartal sydd eisoes yn bodoli, ac yn disgrifio sut y bwriadwn adeiladu arnynt.

Mae cynllun cydraddoldeb hiliol S4C yn ymestyn ar draws ein gweithgaredd statudol ac anstatudol, gan gynnwys ein cyfrifoldeb craidd i ddarparu gwasanaeth teledu cynhwysfawr ac o ansawdd uchel yn yr iaith Gymraeg. Mae'n nodi sut y bwriadwn wireddu gofynion y Ddeddf ym mhrif feysydd ein busnes. Disgrifia sut y bwriada S4C gryfhau ein hymrwymiad i hybu cydraddoldeb trwy nifer o bolisïau newydd a sut y caiff y polisïau hyn eu monitro. Hefyd, nodir y modd y cyhoeddir gwybodaeth fanwl ar raddfa llwyddiant y polisïau hyn. Bydd y modd y caiff y cynllun ei roi ar waith yn cael ei fonitro gan Awdurdod S4C fel rhan o'i ofalaeth gyffredinol dros y sianel. Cyflwynir adroddiad blynyddol gan yr Awdurdod ar y cynnydd a wneir yn Adroddiad Blynyddol S4C.

Rhychwant

Aseswyd yr hyn sydd ymhlyg yn y ddeddfwriaeth newydd gan S4C ar draws pob agwedd o'n busnes. Credwn mai'r gweithgareddau allweddol sy'n berthnasol i'r dyletswydd sydd arnom i hybu cyfleoedd cyfartal yw:

(i) Darlledu – Cyfrifoldeb statudol craidd S4C yw i ddarlledu gwasanaeth teledu amrywiol o ansawdd uchel. Un o amcanion canolog y gwasanaeth yw ei fod yn adlewyrchu'r gymuned y mae S4C yn anelu i'w gwasanaethu. Mae gofyn ar i'r gwasanaeth hefyd adlewyrchu amrywiaeth y gymuned honno. Yn ogystal, gall rhaglenni gynnig cyfleoedd i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal, naill ai drwy eu pwnc neu trwy'r ffordd y caiff cymeriad o gymuned ethnig leiafrifol ei bortreadu.

(ii) Cyflogaeth – Mae S4C yn gyflogwr cyfleoedd cyfartal. Nid yw'n gwahaniaethu ar sail hil, rhyw, crefydd, oedran, anabledd, tueddiad rhywiol na statws priodasol wrth recriwtio staff nac mewn unrhyw bolisi cyflogaeth. Mae'r cynllun hwn yn darparu manylion pellach ar sut y bwriada S4C gryfhau ei hymrwymiad parthed hyn.

(iii) Hyfforddi a datblygu talent – Mae S4C yn cefnogi amrywiaeth o gyrff a gweithgareddau sydd wedi eu sefydlu i gryfhau'r diwydiant clyw-weledol yng Nghymru, yn arbennig y sector annibynnol sy'n cyflenwi ein rhaglenni. Mae S4C yn awyddus i gynyddu nifer y bobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol sy'n cael eu recriwtio i'r diwydiant, i weithio o flaen y camera ac yn y swyddi hynny sydd ynghlwm â gwneud rhaglenni.

(iv) Adnabod ein gwylwyr – Mae gofyn statudol ar S4C i ymchwilio a chadw hoff bethau a chas bethau ei gwylwyr mewn golwg. Amcan y sianel yw darparu gwasanaeth teledu sy'n apelio i siaradwyr Cymraeg o bob cefndir ac ar draws pob oedran. Bydd S4C yn parhau i fuddsoddi mewn ymchwil ansoddol a meintiol i weld sut y mae gwylwyr ar draws pob grŵp oedran yn ymateb i'n rhaglenni. Bydd y sianel hefyd yn ymchwilio i ymateb gwylwyr o gymunedau ethnig lleiafrifol Cymru.

Manylion y Cynllun

Mae manylion bwriadau S4C ar gyfer cyflawni ei chyfrifoldeb i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail hil a hybu cyfleoedd cyfartal fel a ganlyn:

1. Darlledu

Cyfrifoldeb pennaf S4C yw i ddarlledu gwasanaeth teledu o ystod eang ac ansawdd uchel. Gwna hyn trwy ei gwasanaeth analog sy'n cynnwys 37 awr yr wythnos o raglenni yn Gymraeg wedi eu cyfuno â'r gorau o raglenni Saesneg Channel 4 ar adegau eraill. Mae S4C hefyd yn darlledu yn y Gymraeg yn unig ar lwyfannau cebl a lloeren am tua 84 awr yr wythnos. Mae S4C yn anelu i sicrhau bod y gwasanaeth teledu a ddarperir ganddi yn adlewyrchu'r gymuned y mae yn ei gwasanaethu. Mae aelodau o grwpiau ethnig lleiafrifol yn rhan gynyddol flaenllaw o'r gymuned honno ac mae S4C yn awyddus fod hyn hefyd yn un o nodweddion ei rhaglenni.

Cred S4C fod gan deledu rôl bwerus i'w chwarae wrth hyrwyddo cyfleoedd cyfartal. Gall wneud hynny ar draws ystod o *genres*, gan gynnwys:

(a) Ffeithiol – Gall rhaglenni sydd ag aelod o grŏp ethnig lleiafrifol yn brif destun wella dealltwriaeth gwylwyr yn gyffredinol o'r grŏp hwnnw. Dwy enghraifft ddiweddar o raglenni o'r fath ar S4C oedd *Dyddiadur Ramadan* – rhoddodd y dyddiadur fideo a gadwodd Ali Yassin am fis ddealltwriaeth inni o'r Đyl honno trwy ffocysu ar brofiad un person – a *Crefydd y Cymry*, a gymerodd gip ar grefyddau'r byd trwy lygaid y rheini sy'n arddel amrywiol grefyddau yng Nghymru.

(b) Drama – Mae aelodau o'r cymunedau ethnig lleiafrifol yn rhan gynyddol ac annatod o'r gymuned Gymraeg ei hiaith ac mae angen adlewyrchu hyn yn y cymunedau ffuglennol a bortreadwn ar y sgrîn. Y ffactor allweddol a fydd yn dylanwadu ar ein gallu i lwyddo yn hyn o beth fydd a ellir cynyddu'r nifer o actorion o gymunedau ethnig lleiafrifol sy'n medru'r Gymraeg.

Bwriad S4C yw ail gadarnhau ei hymrwymiad i hyrwyddo cyfleodd cyfartal trwy'r ddwy agwedd hon ar y gwasanaeth rhaglenni. Gwireddwn yr ymrwymiad hwn trwy:

(i) gymhwyso ein canllawiau i gynhyrchwyr er mwyn annog defnydd helaethach o actorion Cymraeg eu hiaith o gymunedau ethnig lleiafrifol. Dros amser, byddem yn disgwyl fod hyn yn golygu fod actorion a chymeriadau o gefndiroedd ethnig i'w gweld yn amlach.

(ii) wneud ymrwymiad clir i'w adlewyrchu yn ein datganiad blynyddol ar Bolisi Rhaglenni. Gallai hyn olygu rhaglenni yn ymwneud â materion sy'n berthnasol i'r grwpiau ethnig lleiafrifol neu fe allai gyfeirio at raglenni sydd ag aelod o grŵp ethnig lleiafrifol yn brif destun iddi. Fe adroddwn ar yr hyn a gyflawnir yn ein Hadroddiad Blynyddol.

2. S4C fel Cyflogwr

Mae S4C yn gyflogwr cyfle cyfartal. Nid yw'n gwahaniaethu ar sail hil, rhyw, crefydd, oedran, anabledd, tueddiad rhywiol na statws priodasol wrth recriwtio staff nac unrhyw bolisi cyflogaeth arall. Mae gan S4C hefyd bolisi gwrth aflonyddu cyhoeddedig. Ei fwriad yw darparu amgylchedd gwaith lle nad yw staff yn dioddef brawychu, bygwth, bwlian, gwahaniaethu yn eu herbyn neu aflonyddu. Nid yw S4C yn dioddef bwlian nac aflonyddu, boed ar sail hil, rhyw, crefydd, anabledd neu duedd rhywiol. Ym mholisi S4C, diffinnir aflonyddiad hiliol fel ymddygiad sy'n ymwneud â hil, lliw, crefydd a gwreiddiau neu genedligrwydd ethnig, sy'n tramgwyddo, neu'n codi embaras, neu'n sarhau, neu'n frawychus i'r sawl sy'n ei ddioddef. Mae polisi S4C yn cydnabod fod aflonyddu hiliol yn gallu cymryd sawl ffurf a gall gynnwys cam-drin corfforol, llafar neu ddi-eiriau sy'n sarhau person ar sail hil ac sy'n darostwng y dioddefwr.

Y mae S4C yn cydnabod na all hyn na'r un agwedd arall ar ei pholisi cyfle cyfartal lwyddo os nad yw'r polisïau hynny'n cael eu deall a'u rhoi ar waith yn ddyddiol gan y staff. Felly, bydd cyfleoedd cyfartal yn parhau i fod yn elfen ganolog o'r hyfforddiant cychwynnol a ddarperir i holl aelodau'r staff. Byddwn hefyd yn trefnu hyfforddiant i holl aelodau'r staff i sicrhau eu bod yn deall oblygiadau'r polisi cyfle cyfartal yn llawn. Mae S4C hefyd yn cydnabod y bydd arni angen data swmpus i'w galluogi i asesu a yw'r polisi'n gweithio'n foddhaol. At y diben hwn, mae S4C yn bwriadu cryfhau ei systemau ar gyfer monitro effeithlonrwydd ei hymrwymiad i gydraddoldeb cyfleoedd. Bydd y mesurau hyn yn cynnwys monitro dadansoddiad ethnig o'r canlynol:

- y rhai sy'n ceisio am swyddi o fewn y corff
- aelodau o'r staff sy'n cael eu disgyblu
- unrhyw gwynion a dderbynnir o drefniadaeth gwynion ffurfiol S4C, gan gynnwys unrhyw gwynion yn codi o werthusiadau blynyddol
- diswyddiadau ac/neu unrhyw reswm arall dros adael

Mae S4C yn awyddus i gynyddu nifer ei staff sy'n dod o grwpiau ethnig lleiafrifol. Gan fod bod yn rhugl yn y Gymraeg yn gymhwyster angenrheidiol i nifer sylweddol o swyddi o fewn y corff, y mae S4C yn wynebu her neilltuol yn hynny o beth. Wrth i nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y cymunedau ethnig lleiafrifol gynyddu, o ganlyniad i bolisïau addysg ac eraill, disgwylir i'r broblem hon leddfu gydag amser.

Yn y cyfamser, bydd S4C yn arbrofi trwy osod hysbysebion am swyddi mewn cyhoeddiadau ethnig lleiafrifol er mwyn sicrhau mwy o geisiadau gan bobl o gefndir ethnig lleiafrifol.

3. Hyfforddi a Datblygu Talent

Mae S4C yn cyflogi tua 200 o bobl yn uniongyrchol. Yng nghanolfan S4C yn Llanisien y mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn gweithio. Fodd bynnag, mae ein buddsoddiad trwy gomisiynu rhaglenni yn golygu fod S4C yn gyfrifol am tua 2,000 o swyddi eraill, yn union ac anuniongyrchol, ledled Cymru[1]. Awgryma'r cyfrifiad diweddaraf o'r gweithlu clyw-weledol fod tua 3.5% o'r rhai a gyflogir gan y diwydiant yng Nghymru yn aelodau o grwpiau ethnig lleiafrifol. Mae'r grwpiau hyn yn cyfrif am 2.1% o'r boblogaeth gyfan. Cyfyngedig yw gallu S4C i ddylanwadu'n uniongyrchol ar y ffigyrau hyn gan mai cwmnïau cynhyrchu unigol sy'n gyfrifol am benderfyniadau recriwtio unigol. Fe fyddwn, fodd bynnag, yn addasu ein canllawiau i gynhyrchwyr fel bod ein disgwyliadau yn y maes hwn wedi eu cyfleu hyd yn oed yn fwy eglur.

Mae S4C yn ymrwymedig i weithio gyda sefydliadau eraill sydd â rhan i'w chwarae yn gwella cyfleoedd i grwpiau ethnig. Byddwn yn parhau i gydweithio gyda chorff hyfforddi'r diwydiant, Cyfle, i ddatblygu cynlluniau fydd wedi eu cynllunio i ledaenu cyfleoedd i bobl ifanc o grwpiau ethnig i ddod i mewn i'r diwydiant. Byddwn yn adrodd ar y cynnydd a gyflawnir yn yr Adroddiad Blynyddol.

4. Ymchwil

Inni fod yn llwyddiannus, mae angen i S4C wybod cymaint â phosibl am y ffordd y mae ein gwylwyr yn ymateb i'n rhaglenni. O'r herwydd, rhydd S4C flaenoriaeth uchel i ymchwil a dadansoddiad. Man cychwyn y dadansoddiad hwn yw'r data meintiol a gynhyrchir gan BARB ar nifer y bobl sy'n gwylio rhaglenni unigol. Bydd S4C hefyd yn tracio barn gwylwyr ar ansawdd y rhaglenni hynny. Cynhelir grwpiau ffocws hefyd i fesur barn gwylwyr ar wahanol agweddau o'r gwasanaeth.

Amcan S4C yw darparu gwasanaeth o ystod eang sy'n apelio i bob chwaeth a diddordeb. Yn y dyfodol, fodd bynnag, byddwn yn sicrhau fod ein hymchwil cynulleidfa yn cynnwys ymchwil wedi ei anelu at gofnodi pob barn benodol gan y rheini o blith ein gwylwyr sydd hefyd yn aelodau o gymunedau ethnig lleiafrifol.

Monitro

Caiff pob agwedd ar y polisïau a amlinellir yn y cynllun hwn ei fonitro gan Awdurdod S4C. Bydd adroddiad cyffredinol ar y cynnydd a gyflawnwyd yn cael ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol S4C.

[1] Adroddiad Uned Ymchwil Economaidd Cymru 2001